## CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 12 Ebrill 2016 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Ann Davies (Is-Gadeirydd), Meirick Davies, Stuart Davies, Peter Duffy, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Huw Jones, Gwyneth Kensler (Cadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Jason McLellan, Barry Mellor, Dewi Owens, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Gareth Sandilands, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams a/ac Eryl Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol AD a Democrataidd (GW), Prif Swyddog Cyllid (RW), Gwasanaethau Democratig (SP) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Ian Armstrong, Brian Blakeley, Bobby Feeley, Colin Hughes, Rhys Hughes, Alice Jones, Pat Jones, Win Mullen-James, Bob Murray a/ac Huw Williams

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd wrth Aelodau o dan y Cod Ymddygiad Aelodau, byddai'n rhaid i bob un ohonynt ddatgan cysylltiad personol yn eitem 9, Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Cymru 2016/2017. Roedd eithriad i Aelodau rhag buddiant sy'n rhagfarnu. Nid oedd angen llenwi unrhyw ffurflenni datgan cysylltiad gan fod y cysylltiadau personol wedi cael eu cofnodi.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim materion brys.

## TEYRNGEDAU I'R CYNGHORWYR RICHARD DAVIES A PETER OWEN

Talodd y Cadeirydd deyrnged i'r Cynghorwyr Richard Davies a Peter Owen fu farw yn ddiweddar. Rhoddwyd teyrngedau i'r ddau Gynghorydd am eu gwaith caled gan holl Arweinwyr y Grwpiau, ynghyd â'r Cynghorydd Meirick Lloyd Davies ar ran yr Awdurdod Tân.

Cydymdeimlwyd yn ddiffuant gyda gwragedd a theuluoedd y Cynghorwyr Richard Davies a Peter Owens ar adeg drist iddynt. Cadarnhaodd y Cynghorwyr i gyd y farn a fynegwyd

y byddai colled fawr ar ôl y Cynghorydd Davies a’r Cynghorydd Owen.

Cafodd un funud o dawelwch ei gynnal fel arwydd o barch tuag at y Cynghorydd Richard Davies a'r Cynghorydd Peter Owen.

Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, ar ran y Cyngor llawn, dymunodd y Cadeirydd yn dda i’r Cynghorwyr Brian Blakeley, Bob Murray, Win Mullen-James ac Alice Jones yn dilyn salwch diweddar. Hefyd anfonwyd dymuniadau gorau at ŵr y Cynghorydd Joan Butterfield a fu’n sâl iawn yn ddiweddar.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bill Tasker yn ôl i'r Cyngor yn dilyn salwch yn ddiweddar.

Diolchodd y Cynghorydd Bill Tasker i bawb am eu dymuniadau da tra bu’n sâl.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 28 Chwefror 2016 a 31 Mawrth 2016 wedi’i dosbarthu cyn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y rhestr o ymrwymiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2016.

<u>Materion yn codi</u>

Tudalen 8, Eitem 5 - holodd y Cynghorydd Eryl Williams am y ffaith nad oedd y wybodaeth am Grantiau wedi ei dosbarthu i'r Aelodau hyd yma. Ymddiheurodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill i'r Aelodau gan ei bod wedi derbyn y wybodaeth yn ddiweddar gan y Pennaeth Cyllid, Richard Weigh, ac y byddai'n dosbarthu'r ddolen i'r wybodaeth yn dilyn y Cyngor llawn.

Tudalen 13 - Eitem 10 - Cododd y Cynghorydd Bill Cowie y mater nad oedd wedi ei nodi yn y cofnodion ei fod wedi codi'r mater ynghylch dyraniad ariannol i ardaloedd ar gyfer llifogydd ac a fyddai Llanelwy yn cael ei gynnwys.

Diolchodd y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies ac Arwel Roberts i’r Cynghorydd Bill Cowie am y gwaith yr oedd wedi'i wneud i gynorthwyo gyda materion yn ymwneud â llifogydd a gofynasant iddo gael ei nodi bod Cefn Meiriadog a Rhuddlan, yn y gorffennol, wedi eu heffeithio gan lifogydd hefyd.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2016 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.*

6 **TREFNIADAU AR GYFER ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y CYNGOR**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yr adroddiad (eisoes wedi'i ddosbarthu) yn ceisio cytundeb ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd arfaethedig y Cyngor Sir ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2016/17 i gael eu hethol yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 10 Mai 2016. Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer y ddwy swydd.

**Ethol Cadeirydd** - Cynigiodd y Cynghorydd Martyn Holland, eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts y dylid ethol y Cynghorydd Ann Davies yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2016/17. Nid oedd unrhyw enwebiadau pellach. Diolchodd y Cynghorydd Davies i'r Aelodau am eu cefnogaeth a chafodd ei llongyfarch ar ei henwebiad.

**Ethol Is Gadeirydd -** Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield ac eiliodd y Cynghorydd Jeanette Chamberlain Jones fod y Cynghorydd Win Mullen-James yn cael ei enwebu yn Is-Gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2016/17. Nid oedd unrhyw enwebiadau pellach. Yn anffodus, ni allai'r Cynghorydd Win Mullen-James fod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd salwch.

***PENDERFYNWYD*** *Cynnig y Cynghorydd Ann Davies yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Win Mullen-James yn Is-gadeirydd y Cyngor Sir am y flwyddyn 2016/17 i'w hethol yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 10 Mai 2016.*

7 **POLISI RHANNU PRYDERON**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Moderneiddio a Thai, y Cynghorydd Barbara Smith y Polisi Rhannu Pryderon (eisoes wedi'i ddosbarthu) i geisio cymeradwyaeth yr Aelodau i fabwysiadu'r Polisi.

Roedd y Polisi wedi cael ei ddiweddaru a'i ailfformatio i gynnwys rolau a chyfrifoldebau cliriach a'r newidiadau deddfwriaethol. Daeth y Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio (2013) â nifer o newidiadau sy'n effeithio ar rannu pryderon.

Roedd y tri newid allweddol i'r Polisi Rhannu Pryderon fel a ganlyn:-

a) Dim ond datgeliadau a wnaed 'er budd y cyhoedd' sy'n cael eu gwarchod. Mae'n rhaid i weithwyr ddangos eu bod 'yn rhesymol gredu' bod y datgeliad maent yn ei wneud er 'lles y cyhoedd'.
b) Cael gwared ar y gofyniad i ddatgeliadau gael eu gwneud yn 'ddidwyll' er mwyn eu diogelu.
c) Gwneud cyflogwyr yn atebol am weithredoedd y gweithwyr (megis aflonyddu cydweithiwr sydd wedi codi pryder) a gwneud gweithwyr yn atebol yn bersonol.

Bydd y polisi yn cael ei gyfleu i bob gweithiwr, gan gynnwys ysgolion, trwy'r fewnrwyd, hyfforddiant, oriau pŵer/gweithdai a hefyd byddant yn mynd i gyfarfodydd rheoli drwy Bartneriaid Busnes Adnoddau Dynol. Gall ysgolion fabwysiadu polisi corfforaethol, os dymunant, a bydd ysgolion yn cael eu hannog i fabwysiadu'r Polisi hwn.

Yn dilyn trafodaeth:

***PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn cytuno i fabwysiadu'r Polisi Rhannu Pryderon.*

## 8 ADOLYGU'R FFIN RHWNG WARDIAU CANOL PRESTATYN A GALLT MELYD

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr Adroddiad Adolygu Ffiniau (dosbarthwyd yn flaenorol) i'r Cyngor gymeradwyo'r newidiadau ar gyfer y ffin rhwng ward Canol Prestatyn a ward Gallt Melyd.

Cynhaliwyd yr adolygiad mewn ymateb i gais ffurfiol gan Gyngor Tref Prestatyn ar gyfer adolygiad o'r ffin rhwng wardiau Canol Prestatyn a Gallt Melyd ac i adolygu anghysondeb hanesyddol yn y trefniadau wardio.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynnal trefniadau ward sy'n ddymunol er budd Llywodraeth Leol effeithiol a chyfleus ac roedd y sefyllfa anomalaidd presennol yn Ffordd Bishopswood a Cambrian Drive yn annerbyniol.

Cafwyd trafodaeth a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriadau i gynnwys eiddo ar Ffordd Gallt Melyd a The Paddock o fewn y Ward Canol Prestatyn. Cynigiodd y Cynghorydd Hugh Irving drydydd argymhelliad i'r ddau bwynt presennol o argymhelliad yn yr adroddiad, bod y Cyngor yn ailedrych ar ffin y ward fel bod Ffordd Gallt Melyd a The Paddock i'w cynnwys o fewn Canol Prestatyn, eiliwyd gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill.
- Cadarnhaodd y Cynghorydd Peter Evans (Aelod Lleol) y byddai ef yn fodlon â'r argymhellion o fewn yr adroddiad yn ymwneud â Ffordd Bishopswood a Cambrian Drive, ond pwysleisiodd ei fod yn erbyn unrhyw adolygiad pellach o ffiniau ar gyfer Ffordd Gallt Melyd a The Paddock.
- Ar y pwynt hwn cynigiodd y Cynghorydd Joe Welch na ddylai unrhyw adolygiad pellach o ffiniau ddigwydd gan fod Gallt Melyd yn bentref hanesyddol ac yn cael ei grybwyll yn llyfr dydd y farn. Eiliwyd gan y Cynghorydd Peter Evans.

Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd wrth yr holl Aelodau y byddai angen pleidleisio ar y newid cyntaf gan y Cynghorydd Hugh Irving yn y lle cyntaf.

Cynhaliwyd y bleidlais ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

PLEIDLAIS dros y newid i gynnwys (iii) bod y Cyngor yn edrych eto ar y ffin o ran Ffordd Gallt Melyd a The Paddock

O blaid - 5
Ymatal - 1
Yn erbyn - 27

Y canlyniad oedd na fyddai'r newid yn cael ei gynnwys o fewn yr argymhelliad.

Yn y fan hon, tynnodd y Cynghorydd Joe Welch ei newid yn ôl.

PLEIDLEISIO dros yr argymhelliad sylweddol (i) a (ii)

O blaid - 31
Ymatal - 1
Yn erbyn - 1

Felly:

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn cymeradwyo:*

*(i) Y dylai diwygio ffin y ward rhwng ward Ganol Prestatyn a ward Gallt Melyd gynnwys yr eiddo ar Bishopswood Road a Cambrian Road fel y dangosir ar y map yn Atodiad 1 gyda'r adroddiad; a*
*(ii) Bod wardiau etholiadol Canol Prestatyn a Gallt Melyd ar gyfer y Cyngor Tref a'r Cyngor Sir yn cael eu diwygio yn unol â'r ffin a ddangosir yn Atodiad 1 gyda'r adroddiad.*

**Ar y pwynt hwn (11.15 a.m.) cafwyd egwyl o 20 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.35am.**

## 9 ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2016/17

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Cymru (eisoes wedi'i ddosbarthu) i wneud Aelodau yn ymwybodol o benderfyniadau'r Panel ar gyfer 2016/17 mewn perthynas â thaliadau i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig.

Byddai penderfyniadau'r Panel yn dod i rym o ddyddiad cyfarfod Blynyddol y Cyngor a fyddai'n cael ei gynnal ar 10 Mai 2016.

Yn dilyn trafodaeth:

***PENDERFYNWYD:***

*(i) Aelodau i nodi penderfyniadau'r Panel ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2016/17 mewn perthynas â thalu Cyflogau Sylfaenol a Chyflogau Uwch Reolwyr a thaliadau i Aelodau cyfetholedig;*
*(ii) Bod Aelodau yn mabwysiadu'r rhestr tâl fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad (sy'n aros heb ei newid o 2015/16) ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2016/17.*

## 10 AMSERLEN Y PWYLLGOR 2016/2017, ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL A PHENODI CADEIRYDDION ARCHWILIO

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Amserlen y Pwyllgor ar gyfer 2017, Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol ac adroddiad Penodi Cadeiryddion Archwilio (dosbarthwyd yn flaenorol).

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo amserlen ar gyfer 2017 yn unol â phenderfyniad y Cyngor i gynnal amserlen 18 mis er mwyn galluogi cadarnhau mannau cyfarfod ac adnoddau, cyhoeddi’r amserlen a llenwi dyddiaduron yr Aelodau. Gan y byddai blwyddyn newydd y Cyngor yn dechrau ym mis Mai, byddai hefyd yn briodol i’r Cyngor ystyried newidiadau yn y cydbwysedd gwleidyddol.

Mynegodd y Cynghorydd Paul Penlington ei siom nad oedd dim cyfarfodydd hwyr yn y prynhawn neu gyda'r nos wedi eu trefnu. Dywedwyd wrth y Cynghorydd Penlington fod yr amserlen pwyllgorau wedi ei pharatoi yn unol â chanllawiau Aelodau. Ar y pwynt hwn, gofynnodd y Cynghorydd Penlington am ymateb gan y Prif Weithredwr.

Eglurodd y Prif Weithredwr wrth bawb oedd yn bresennol os bydd gan unrhyw Aelod deimladau digon cryf, gallent ddod â Rhybudd o Gynnig i gyfarfod y Cyngor i asesu barn Aelodau eraill. Hefyd mynegodd y Prif Weithredwr bryderon ynghylch presenoldeb mewn cyfarfodydd. Anogodd yr Aelodau i sicrhau bod cyfarfodydd cyhoeddus yn gwneud cworwm ac i wneud pob ymdrech i fod yn bresennol. Roedd ansawdd cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yn dda ond roedd diffyg presenoldeb Aelodau yn broblem weithiau.

Cafwyd trafodaeth gyffredinol a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Holwyd am ddyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Llawn ym mis Ionawr a Chwefror 2017 a oedd o bosibl yn cael eu cynnal yn rhy fuan yn y mis. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n gwirio dyddiadau eraill. Gofynnwyd i bresenoldeb ar Banel Mabwysiadu ar y Cyd Conwy a Sir Ddinbych, ynghyd â'r Panel Maethu gael ei gynnwys o fewn ystadegau cofnodion presenoldeb Cynghorwyr. Eglurwyd gan nad oedd staff y Gwasanaethau Democrataidd yn hwyluso'r ddau gyfarfod yma, ni chawsant eu cynnwys ar y wefan, ond byddai'r mater technegol yn cael ei asesu er mwyn i’r ffigurau presenoldeb ymddangos ar y wefan. Codwyd y mater o gyfarfodydd Pwyllgor yn gwrthdaro â chyfarfodydd a gynhelir gan gyrff allanol yn achlysurol.
- Gofynnodd y Cadeirydd i'r holl Aelodau anfon ymddiheuriadau at y Cadeirydd a'r swyddogion, cyn gynted â phosibl os nad oeddent yn gallu mynychu unrhyw gyfarfodydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield bod Gweithgor yn cael ei sefydlu i edrych ar amrywiaeth cyfarfodydd y Cyngor. Eiliwyd gan y Cynghorydd Barry Mellor.

Cafwyd pleidlais, fel a ganlyn:

O blaid - 18
Ymatal - 0
Yn erbyn - 11

Cadarnhaodd y swyddogion y byddent yn cysylltu ag Arweinwyr y Grwpiau i gynnull gweithgor o groestoriad o Aelodau, gan gynnwys yr Aelod Arweiniol.

Ar y pwynt hwn, enwebodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies ei hun i ddod yn Aelod ar y Pwyllgor Safonau, eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts. Pawb yn codi dwylo yn unfrydol yn cytuno i hynny.

Cynhaliwyd pleidlais ar gyfer yr argymhellion gwreiddiol yn yr Adroddiad:

O blaid - 21
Ymatal - 1
Yn erbyn - 0

Felly:

***PENDERFYNWYD:***

*(i) Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r amserlen ddrafft.*
*(ii) Bod y Cyngor yn ailbenodi Cadeirydd ac aelodaeth presennol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016/17, yn amodol ar unrhyw newidiadau a hysbyswyd gan y Grwpiau.*
*(iii) Bod y Cyngor yn penodi'r Cynghorydd Meirick Lloyd Davies i'r Pwyllgor Safonau, a*
*(iv) Bod gweithgor yn cael ei sefydlu i edrych ar amrywiaeth amseroedd a lleoliadau'r cyfarfodydd.*

## 11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes).

***PENDERFYNWYD*** *– cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

Ar y pwynt hwn, diolchodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Gwyneth Kensler i'r holl Aelodau a Swyddogion am eu cymorth a chydweithrediad yn ystod ei blwyddyn fel Cadeirydd gan mai hwn fyddai ei chyfarfod llawn olaf fel Cadeirydd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm.**